

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**  
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**TÎM COMISIYNU (OEDOLION)**

**ADRODDIAD CONTRACT MONITRO**

Preswylfa:	Cartref Preswyl Luk Ros
Enw a Chyfeiriad y Darparwr:	Homes of Excellence 5 River Terrace Pengam Coed Duon NP12 1XB
Dyddiad yr Ymweliad:	6 <sup>ed</sup> a 11 <sup>eg</sup> Medi 2019
Swyddog(ion) Ymweld:	Diane Davies – Swyddog Monitro
Presennol:	Carmen Rice – Rheolwr Cofrestredig

**1 Cefndir**

Mae Luk Ros yn Gartref Preswyl i unigolion ag Anableddau Dysgu. Homes of Excellence sy'n ddarparwr cofrestredig ym mwrdeistref Caerffili sy'n berchen ar y cartref ac yn ei redeg.

Byngalo pedair ystafell wely yw'r eiddo, mewn ardal breswyl dawel ym Mhengam. Ar adeg yr ymweliad roedd pedwar preswlydd; tri wedi'u hariannu gan CBSC, ac un wedi'i ariannu gan awdurdod lleol cyfagos.

Yn ystod yr ymweliadau, roedd y swyddog monitro yn gallu cwrdd â'r holl breswylwyr, a rhai aelodau o staff, archwilio gwaith papur a phrosesau yn ogystal â gweld pob rhan o'r cartref.

Yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau cywirol a datblygiadol i'r darparwr eu cwblhau. Camau gweithredu cywirol yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (fel y'u rheolir gan ddeddfwriaeth), ac mae camau datblygiadol yn argymhellion arfer da.

**2 Argymhellion Blaenorol**

**2.1 Camau Gweithredu Cywirol**

Sicrhau bod yr holl ffeiliau'n cael eu rhoi mewn cabinet y gellir ei gloi.

**Wedi'i gyflawni**

Sicrhau bod yr holl bolisiau'n cael eu diweddarau a dyddiadau'n cael eu nodi ar gyfer adolygiadau a gynlluniwyd.

**Wedi'i  
gyflawni'n  
rhannol**

## 2.2 Camau Gweithredu Datblygiadol

Dylid ystyried cofnodi gwybodaeth yn y nodiadau dyddiol i ddangos sut y mae preswylwyr yn cyflwyno, pa dasgau sy'n cael eu cyflawni'n annibynnol a sut y mae preswylwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn tasgau.

**Ar waith**

Dylid ystyried datblygu matrices hyfforddi sy'n dal ac yn darparu tystiolaeth o'r holl gyrsiau y mae pob aelod o staff yn eu mynychu ynghyd â'r dyddiadau yr ymgwymerir â hwynt a'u cadw mewn un ddogfen er hwylustod.

**Ar waith**

Dylid ystyried ailysgrifennu asesiadau risg a ysgrifennwyd yn wreiddiol sawl blwyddyn yn ôl, gan sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfoes.

**Wedi'i gyflawni**

## **Canfyddiadau o'r Ymweliad**

### 3 Ffeiliau a Dogfennaeth

Mae ffeiliau'n cael eu cadw mewn trefn dda gyda mynegai ar y brif ffeil sy'n ei gwneud yn hawdd cyfeirio at bob adran. Roedd dogfennaeth fel asesiadau cyn derbyn, telerau ac amodau preswyllo, hanes bywyd, diwrnod ym mywyd wedi'u cwblhau ac roedd pob dogfen diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoL) yn cael ei gweld a'i diweddarau.

Mae ffeiliau unigol ar gyfer preswylwyr, staff a'r cartref yn cael eu storio mewn cypyrddau sydd wedi'u cloi yn swyddfa'r Rheolwr.

Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol, fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw ddyddiadau cwblhau.

Roedd cofnodion dyddiol yn darparu cofnod manwl o ddigwyddiadau bob dydd, gan hysbysu i ble roedd y preswylwyr yn mynd a beth roeddent yn ei wneud. Fodd bynnag, nid oeddent yn nodi sut yr oedd unigolion yn cyflwyno na pha dasgau a oedd yn cael eu cyflawni'n annibynnol.

Roedd tystiolaeth o arfer da a chyfathrebu trylwyr gyda pherthnasau a gweithwyr proffesiynol yn y ffeil drwyddi draw, gan gynnwys mynd i'r afael â meysydd sensitif fel 'Na cheisier dadebru' (DNR) a chynlluniau angladd.

Gwnaed nifer o atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol fel ceirododydd, ThG, Meddyg Teulu, ffisiotherapi, optegwyr a chofnodion ysgrifenedig pan fydd preswylwyr yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau.

Roedd nifer o siartiau i fonitro symudiad y coluddyn, cymeriant hylif, porthiant pegiau ac ati ynghyd â chynlluniau, gweithdrefnau a chanllawiau.

Roedd pasbortau ysbyty wedi'u diweddarau ac roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am gyflwr yr unigolyn ynghyd â'r gofynion ar gyfer gofal personol, bwydo, cadw'n ddiogel, cysgu ac ati. Roedd y pasbort hefyd yn cynnwys 'pethau sy'n bwysig i mi' a 'pethau rwy'n eu hoffi / pethau nad wyf yn eu hoffi' a 'cynllunio ar gyfer pan fyddaf yn mynd adref'.

Roedd y cynlluniau gwasanaeth o safon dda ac yn adlewyrchu cynllun gofal

CBSC. Roeddent yn fanwl ac wedi'u personoli gan nodi hoff bethau a chas bethau, dewisiadau a galluoedd y preswylwyr. Roedd y cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am feysydd fel codi, trosglwyddo, toiledo, gofal personol ac ati ac yn darparu arweiniad ar sut y dylid cyflawni pob tasg.

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer risgiau amrywiol megis crwydro, ymddygiad, mynediad i'r gymuned, glanhau dannedd, llosg haul ac ati.

Mae adroddiadau dyddiol ar yr holl weithgaredd ac unrhyw fewnbwn proffesiynol yn cael eu hysgrifennu a'u hystyried ar gyfer unrhyw ddiweddariadau sy'n ofynnol i gynlluniau gwasanaeth a/neu asesiadau risg a chafwyd cydnabyddiaeth tystiolaeth o adolygiadau misol sy'n cael eu cynnal.

Roedd taflenni llofnodi staff yn cyd-fynd â'r holl ddogfennau a welwyd.

#### 4 Staffio a Hyfforddiant

Edrychwyd ar ddwy ffeil staff ac roedd y ddwy mewn trefn dda gyda'r holl ddogfennau angenrheidiol yn bresennol megis ffurflen gais, dau dystlythyr, tystysgrif geni, ID a gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Hysbysodd y rheolwr fod contractau'n cael eu rhoi i weithwyr ar ôl cyfnod prawf o 3 mis, fodd bynnag, nid oedd y contractau a welwyd wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y cwmni.

Mae Homes of Excellence wedi datblygu eu proses ymsefydlu i gyd-fynd â Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ac roedd hyn yn amlwg ar y ddwy ffeil.

Mae'r cartref yn defnyddio cyrsiau hyfforddi a mynediad ar sail ystafell ddosbarth trwy dîm Datblygu'r Gweithlu CBSC. Bydd y rheolwr yn mynychu pob hyfforddiant i benderfynu a yw'n addas a sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer gofynion staff a phreswylwyr a bydd yn arsylwi staff sy'n cyflawni eu dyletswyddau i sicrhau bod staff yn gymwys.

Mae'r dull cyfredol ar gyfer rheoli hyfforddiant yn parhau i fod yn gymhleth gyda rhai bylchau wedi'u nodi mewn hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant gloywi.

Mae staff yn derbyn goruchwyliaeth bob 2 fis a chynhelir hyn ar sail un i un lle anogir unigolion i drafod unrhyw bryderon neu faterion a allai fod ganddynt. Cydnabuwyd arfarniadau blynyddol hefyd.

#### 5 Ymagwedd tuag at Ofal

Mae'r cartref yn gweithredu system gweithiwr allweddol sy'n cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod eitemau fel pethau ymolchi bob amser yn cael eu newid pan fo angen. Maent yn cynorthwyo preswylwyr i ddewis dillad newydd a phrynu eitemau eraill.

Mae gan bob unigolyn gynlluniwr gweithgaredd er mwyn helpu i drefnu ei ddyddiau ar hyd pob wythnos. Cefnogir preswylwyr i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned megis mynd allan am ginio tafarn,

mynd i siopa, triplau dydd a mynd allan yn y car ac ati. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod unigolion hefyd yn mwynhau gwyllo ffilmiau, gwranddo ar gerddoriaeth ac ymgymryd â gweithgareddau yn y cartref.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod Homes of Excellence yn cyflogi cydlynedd gweithgareddau i ddod i'r cartref bedair gwaith yr wythnos er mwyn darparu gweithgareddau fel celf a chrefft, garddio a choginio yn ogystal ag allan yn y gymuned. Mae Sense Wales hefyd yn darparu tair sesiwn yr wythnos yn ymdrin â cherddoriaeth, drymiau, tylino, stori a chanu.

Sylwais ar gyfathrebu a rhyngweithio da rhwng staff a phreswylwyr gyda'r preswylwyr yn ymgysylltu ac yn ymateb yn gadarnhaol i staff. Roeddent i gyd yn ymddangos yn hapus yn amgylchedd eu cartref ac roeddent naill ai'n gwyllo DVD, yn gwranddo ar gerddoriaeth neu'n chwarae gyda theganau synhwyraidd ac ati.

Roedd yn amlwg o drafodaethau gyda'r Rheolwr bod annibyniaeth yn cael ei hyrwyddo lle bynnag y bo modd a rhoddwyd rhai enghreifftiau o dasgau y gall preswylwyr eu gwneud yn annibynnol neu gydag anogaeth, goruchwyliaeth neu gefnogaeth gan staff e.e. paratoi brecwast, gwneud diod ac ati.

Mae Luk Ros yn ymwybodol o'r cynnig gweithredol ac mae aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn cyflwyno'r Gymraeg i'r gweithle trwy ddatblygu arwyddion fel dyddiau'r wythnos, croeso, hwyl fawr ac ati. Mae'r aelod o staff hefyd yn cefnogi cydweithwyr i ddeall ac ynganu geiriau.

Mae'r cartref yn parhau i gael dathliadau trwy gydol y flwyddyn fel barbeciws, penblwyddi, Calan Gaeaf, Nadolig ac ati ac estynnir croeso i'r holl staff ac aelodau o'r teulu. Mae preswylwyr hefyd yn mynd i ffwrdd ar wyliau unwaith y flwyddyn.

## 6 Maethiad

Er mwyn helpu i sicrhau bod preswylwyr yn bwyta diet iach, bydd y staff yn gwneud rhestr siopa i gynnwys eitemau fel ffrwythau ffres, llysiau a sudd ffrwythau ac ati. Mae'r staff yn llunio bwydlen ddyddiol ar gyfer prif brydau bwyd yn seiliedig ar yr hyn y mae'r preswylwyr yn gyffredinol yn hoffi ei fwyta a bydd yn ymgymryd â'r brif dasg siopa am fwyd yn fisol.

Hysbysodd y rheolwr fod rhai o'r preswylwyr yn hoffi cymryd rhan ac y byddant yn mynd i'r siopau lleol gyda staff i brynu'r eitemau dyddiol angenrheidiol. Dywedodd y rheolwr hefyd y bydd dau o'r preswylwyr yn cymryd rhan mewn paratoi bwyd ac er bod yna fwydlen ddyddiol benodol, gall preswylwyr ddewis opsiwn amgen.

Hysbysodd y rheolwr fod staff yn gyfarwydd ag anghenion preswylwyr ac, pe bai eu hanghenion yn newid, y byddent yn ceisio cyngor proffesiynol i drafod unrhyw bryderon a chysylltu â'r meddyg teulu os oes angen.

- 7 Cymhorthion Symudedd ac Offer  
Mae nifer o gymhorthion ac offer gwahanol yn y cartref, gan gynnwys cadeiriau olwyn, baddon isel iawn, trac nenfwd a theclynnau codi cludadwy. Dywedodd y Rheolwr fod platiau troed a gwregysau diogelwch wedi'u gosod a bod cadeiriau olwyn yn cael eu gwirio'n ddyddiol. Roedd dogfennaeth hefyd yn cadarnhau bod offer yn cael ei wasanaethu yn unol â'r hyn a argymhellir.
- 8 Cwynion a Chanmoliaeth  
Nid yw'r cartref wedi cael unrhyw gwynion wedi'u cofnodi mewn nifer o flynyddoedd, fodd bynnag, mae gan Homes of Excellence bolisi a gweithdrefn gwyno gadarn i'w dilyn os oes angen.
- 9 Amgylchedd Cartref  
Mae'r byngalo yn helaeth ac wedi'i gyflwyno'n dda drwyddo draw. Roedd yr ardal batio wedi'i chynnal a'i chadw'n dda gyda photiau planhigion creadigol a lliwgar yn cael eu harddangos gyda bwriad arfaethedig i adeiladu tŷ haf yn yr ardd.  
  
Roedd ystafelloedd gwely'r preswylwyr wedi'u haddurno'n unigol gyda lluniau ac eitemau o ddewis yn cael eu harddangos. Roedd un ystafell wely wedi'i haddurno i ddiwallu anghenion synhwyrdd y preswyllydd.  
  
Roedd y cartref yn lân ac yn daclus drwyddo draw gyda naws hamddenol, cyfforddus.
- 10 Cwestiynau Staff  
Cymerodd yr aelod o staff bleser wrth drafod ei rôl a dywedodd ei bod wedi gweithio yn Luk Ros ers nifer o flynyddoedd ac yn parhau i fwynhau ei swydd.  
  
Dywedodd yr aelod o staff fod rhai o'r preswylwyr yn ddi-eiriau ac eglurodd fod angen bod yn ymwybodol o anghenion pob preswyllydd yn ogystal â gallu arsylwi'n dda i benderfynu sut y mae rhywun yn teimlo.  
  
Dywedodd yr aelod o staff ei bod yn gallu defnyddio ei menter ei hun a gweithio'n gynhyrchiol gyda'r holl breswylwyr a dywedodd ei bod yn gallu gweithio ar gyflymder y preswylwyr a sicrhau eu bod yn derbyn budd llawn y tasgau sy'n cael eu cyflawni.  
  
Darparodd yr aelod staff enghreifftiau o sut y mae hi'n rhyngweithio gyda'r holl breswylwyr a rhoddodd wybod am bwysigrwydd treulio amser o ansawdd gyda nhw. Dywedodd fod angen iddi fod yn hyblyg yn ei rôl a'i bod yn newid gweithgareddau i ddarparu ar gyfer dymuniadau'r preswylwyr.  
  
Dywedodd yr aelod o staff ei bod yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth lwyr a'i bod yn gallu cyflwyno ei barn a gwneud awgrymiadau i wella ansawdd bywyd preswylwyr.

- 11 **Sicrhau Ansawdd**  
Anfonir holiadur sicrhau ansawdd at yr holl randdeiliaid bob blwyddyn ac edrychwyd ar yr adroddiadau monitro chwarterol a oedd yn dangos bod y darparwr yn monitro rhediad cyffredinol y cartref yn rheolaidd.
- 12 **Camau Gweithredu Cywirol / Datblygiadol**
- 12.1 **Camau Cywirol**  
Sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn cael ei gynnal a'i gofnodi mewn modd amserol. Rheoliad 36, 59 a 78
- Sicrhau bod yr holl bolisiâu yn cael eu dyddio yn unol â'u cwblhau. Rheoliad 12 a 79
- Sicrhau bod pob contract yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan bob parti. Rheoliad 35
- 12.2 **Camau Gweithredu Datblygiadol**  
Nodiadau dyddiol – ystyried cynnwys sut y mae unigolion yn rhyngweithio ac yn cyflwyno.
- 13 **Casgliad**  
Mae'r cartref yn elwa o dîm staff bychan ond sefydlog a ddangosodd ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'r preswylwyr y maent yn eu cefnogi. Gwelwyd perthynas dda rhwng staff a phreswylwyr yn ogystal â gwybodaeth oedd yn tystio bod staff yn cyfathrebu a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymweliad yn gadarnhaol gydag enghreifftiau o arfer da i'w gweld.
- D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael drwy safle Rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad hwn hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd pe byddent yn gofyn i gael eu gweld.